Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

www.casgliadywerincymru.co.uk
www.peoplescollectionwales.co.uk

# Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr drwy ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n bosibl ei ddefnyddio hefyd yn dempled i greu eich gweithgareddau eich hun drwy ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin Cymru.

**Cam Cynnydd** 3

**Pwnc** Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol

**Teitl** **Ar Garreg Eich Drws – Cofrestrau Plwyf**
*Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol*

**Author** **Awdur**

Need to put archives in here & RCAHMW

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r archifdai lleol canlynol: Archifau Gwent, Archifau Sir Penfro, Archifau Ynys Môn, Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam.**

## Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol – Cofrestrau Plwyf

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch chi ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio cofrestrau plwyf fel math o ffynhonnell sydd ar gael mewn archifdai a swyddfeydd cofnodion lleol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres sy'n ffurfio'r blociau adeiladu sylfaenol er mwyn cael gwybod am hanes lleol.

Bwriedir i'r adnodd fod yn ganllaw i athrawon, i'w helpu i ddefnyddio prif ffynonellau yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr adnodd helpu athrawon hefyd i weithio gyda'u harchifdy lleol i ddod o hyd i ffynonellau tebyg ar gyfer eu hardal eu hunain. Ei nod yw cyflwyno athrawon a myfyrwyr i'r mathau o ffynonellau archifol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hanes lleol ac i ymgyfarwyddo â ffurf, golwg a chynnwys y ffynonellau.

# Ar Garreg Eich Drws – Cofrestrau Plwyf – Amcanion Dysgu

## Bydd y dysgwyr yn deall:

- Rôl yr archifdai o ran darparu ffynonellau hanesyddol pwysig.
- Rôl defnyddio Cofrestrau Plwyf fel math o ffynhonnell hanesyddol.
- Pa fath o fywyd oedd gan bobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn eu hardal leol o'i gymharu â bywyd mewn rhannau eraill o Gymru.

## Bydd y dysgwyr yn gallu:

### Pwnc yn y Cwricwlwm – Hanes

- Defnyddio ystod o ffynonellau, gan gynnwys TGCh, i chwilio am wybodaeth.
- Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol.
- Adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.
- Nodi'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol.
- Dewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol.
- Cynllunio'r dull ymchwilio i'w ddefnyddio, gan awgrymu ffordd o ganfod gwybodaeth berthnasol.
- Cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

### Fframwaith Llythrennedd

- Nodi'r prif syniadau, y prif ddigwyddiadau a'r manylion ategol.
- Gwrando ac ymateb i safbwyntiau a syniadau pobl eraill.
- Cyfrannu at drafodaethau a chyflwyniadau.
- Creu cysylltiadau o fewn/ar draws ystod o destunau/themâu.
- Ymchwilio er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn.
- Trefnu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol.
- Defnyddio strwythur ac iaith sy'n briodol i ddiben a ffocws yr ysgrifennu.

# Ar Garreg Eich Drws – Cofrestrau Plwyf – Fframwaith Sgiliau

### Meddwl

- Gofyn cwestiynau.
- Ysgogi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol.
- Cywain gwybodaeth.
- Penderfynu ar y broses/dull a'r strategaeth.
- Pwyso a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.

### Cyfathrebu

- Datblygu a chyfleu gwybodaeth a syniadau.
- Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth gan ddefnyddio strategaethau darllen.
- Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- Ysgrifennu'n gywir.
- Cyfleu gwybodaeth.

### TGCh

- Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau.
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

# Ar Garreg Eich Drws – Testun Rhagarweiniol

## Cyflwyniad

Mae'r adnodd hwn yn rhan o gyfres o wyth. Mae pob adnodd yn y gyfres yn cyflwyno gwahanol fath o ffynhonnell hanesyddol. Mae'r mathau o ffynonellau hanesyddol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adnodd hwn yn nodweddiadol o'r hyn y gallech edrych arnyn nhw mewn project hanes lleol ac maen nhw i gyd ar gael yn eich archifdy lleol.
Dyma'r gwahanol fathau o ffynonellau sy'n cael eu cyflwyno:

Y Cyfrifiad
Mapiau'r Degwm a Mapiau Arolwg Ordnans
Llyfrau Log Ysgolion
Ffotograffau
**Cofrestrau Plwyf – bedyddiadau a marwolaethau**
Cyfeiriaduron Masnach
Catalogau Gwerthu
Papurau newydd

Mae'r ffynonellau hanesyddol enghreifftiol ym mhob adnodd yn dod o bedair ardal yng Nghymru: Caergybi, Blaenafon, Saundersfoot a Wrecsam. Maen nhw'n deillio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gan ddefnyddio'r rhain yn enghreifftiau, mae'n bosibl ymchwilio, creu cysylltiadau a chymariaethau, gofyn ac ateb cwestiynau, darganfod tirweddau a phobl, a'r cysylltiadau sydd rhyngddyn nhw.


Mae ffilm fer sy'n cyflwyno archifau ac ar gyfer pob math o ffynhonnell, ac yna ceir ffilm fer ychwanegol sy'n esbonio'r math o ffynhonnell a sut y gallwn ei defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol. Mae trawsgrifiad o'r ffilmiau a'r mân-luniau yn y **nodiadau i athrawon.** Mae'r delweddau maint llawn ar gael drwy ddilyn y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru.

Ar gyfer pob adnodd yn y gyfres mae sawl **tasg ar-lein** ar gyfer y disgyblion sy'n defnyddio'r ffynonellau o'r pedair ardal. Mae'n bosibl gweld y ffynonellau hyn ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru drwy ddilyn y dolenni sydd ar daflenni tasgau'r disgyblion. Mae **gweithgareddau ychwanegol** hefyd sy'n awgrymu sut y gallai'r disgyblion ddefnyddio ffynonellau eu harchifdy lleol i ymchwilio i'r hanes lleol sydd ar garreg eu drws. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn galluogi disgyblion i gymharu a gwrthgyferbynnu eu hardal hwy ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae manylion archifdai lleol a chenedlaethol Cymru ar ddiwedd y nodiadau i athrawon.

# Ar Garreg Eich Drws – Ffilm Ragarweiniol – Cofrestrau Plwyf

Rhagarweiniad byr ar ffilm yw hwn lle mae archifydd yn esbonio cofrestrau plwyf fel math o ffynhonnell a sut y gallwn eu defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol.
**Gwylio'r ffilm – yr Archif a'r Archifdy**
http://www.casgliadywerin.cymru/node/432772

# Edrych ar Archifau – *Cofrestrau Plwyf*



## Defnyddio cofrestrau plwyf

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio cofrestrau plwyf.

Cyn 1837 nid oedd genedigaethau a marwolaethau yn cael eu cofnodi'n swyddogol. O 1 Gorffennaf 1837 ymlaen, roedd yn rhaid cofnodi pob genedigaeth, priodas a marwolaeth yn swyddogol. Mae'n rhaid gwneud hynny o hyd. I lawer o bobl a gafodd eu geni neu a fu farw cyn Gorffennaf 1937, yr unig gofnod a oedd ar gael i ddangos eu bod wedi bodoli oedd cofnod o'u bedydd, eu priodas neu eu claddedigaeth yn yr eglwys. Roedd y cofnodion hyn yn cael eu cadw ar ffurf llawysgrifen mewn cofrestr neu lyfr gan y gweinidog neu'r offeiriad a oedd yn gyfrifol am fedyddio, priodi neu gladdu pobl. Nid oedd pawb yn cael eu bedyddio ac roedd yr Anghydffurfwyr, er enghraifft y Methodistiaid, y Bedyddwyr ac ati, yn cadw eu cofrestrau eu hunain.

Mae'r sampl fach hon yn rhoi rhyw syniad i ni o sut mae'n bosibl defnyddio cofrestrau plwyf i astudio hanes lleol. Byddai edrych ar sampl mwy yn rhoi llawer mwy o wybodaeth i ni. Er enghraifft, byddai cymharu bedyddiadau a chladdedigaethau ar gyfer un flwyddyn yn benodol yn gallu dweud rhywbeth wrthych am faint o'r plant a fedyddiwyd a gafodd eu claddu o fewn blwyddyn i hynny. Byddai cymharu cofnodion bedyddio a chladdu diweddarach â ffurflenni'r cyfrifiad yn dweud llawer mwy wrthych hefyd am y teuluoedd hyn ac ymhle roedden nhw'n byw.

Mae'r rhan fwyaf o gofrestrau'n cael eu cadw mewn archifdai neu swyddfeydd cofnodion lleol ond fel rheol, ni fyddwch yn gweld y gofrestr wreiddiol. Mae'r cofrestrau i gyd ar ficroffilm (ffordd o gadw deunydd archif). Mae llawer o'r llyfrau gwreiddiol yn fregus ac oherwydd bod cymaint o bobl eisiau edrych arnyn nhw, mae'r ficroffilm yn golygu bod y rhai gwreiddiol yn cael eu diogelu. Gallwch ofyn i'r archifydd ddangos cofrestr wreiddiol i chi os byddwch yn ymweld â'r archifdy ond pe baech yn dymuno edrych ar fedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau ar gyfer plwyf neu flwyddyn benodol, byddai angen i chi ddefnyddio'r microffilmiau.

Mae pedair enghraifft o gofrestrau plwyf i chi eu defnyddio gyda'r ymchwiliadau ar-lein hyn i ddisgyblion.

Bedyddiadau ym Mhlwyf Caergybi yn y flwyddyn 1891
Bedyddiadau ym Mhlwyf Blaenafon yn y flwyddyn 1891
Claddedigaethau ym Mhlwyf Sant Issell (Usyllt), Saundersfoot, yn y flwyddyn 1896
Bedyddiadau ym Mhlwyf Wrecsam yn y flwyddyn 1837

Wrth wneud y tasgau, edrychwch ar y cofrestrau plwyf i gyd yn y casgliadau ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Drwy gymharu'r cofrestrau plwyf, mae modd cael gwybodaeth ddefnyddiol am y pethau a oedd yn debyg a'r pethau a oedd yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Defnyddiwch y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru i weld y cofrestrau plwyf ar-lein.

# Ar Garreg Eich Drws – Cofrestrau Plwyf / Tasg 1

**Pa fath o wybodaeth hanesyddol allwn ni ddod o hyd iddi drwy edrych ar y cofrestrau plwyf?**

Astudiwch y cofrestrau plwyf o'r casgliad isod i'ch helpu i ateb y cwestiwn uchod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**

Pwy fyddai wedi cadw'r cofrestrau plwyf?
Beth sydd wedi'i gofnodi yn y cofrestrau plwyf?
Pam mae'r wybodaeth ar y cofrestrau plwyf yn bwysig?
Edrychwch ar y tair cofrestr bedyddiadau. Beth allwch chi ei ddweud am y mathau o enwau cyntaf y byddai pobl yn eu rhoi i'r babanod ym 1837 ac ym 1891?

## Casgliad ar gyfer Tasg 1

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Cofrestrau Plwyf / Tasg 2

**Beth mae'r cofrestrau plwyf yn ei ddweud wrthym am fywyd bob dydd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?**

Astudiwch y prif ffynonellau o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**

Edrychwch ar y swyddi yr oedd y tadau'n eu gwneud, fel y maen nhw wedi'u rhestru yn y cofrestrau bedyddio.
Oes rhai sy'n ddieithr i chi?
Ai dyma'r math o swyddi y byddech chi'n disgwyl eu gweld?
Rhwng 27 Tachwedd 1896 ac 16 Chwefror 1897, roedd y gofrestr yn rhestru wyth o gladdedigaethau ym mhlwyf St Issell, eglwys plwyf Saundersfoot.
Pa adeg o'r flwyddyn yw hi?
Pa sylwadau allwch chi eu gwneud am y marwolaethau ar y dudalen hon?
A oes unrhyw beth yn eich synnu?

## Casgliad ar gyfer Tasg 2

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Cofrestrau Plwyf / Tasg 3

**Beth yw'r cysylltiad rhwng cofrestrau plwyf a phrif ffynonellau eraill, er enghraifft mapiau a ffurflenni'r cyfrifiad?**

Astudiwch y prif ffynonellau o'r casgliad isod - edrychwch i weld a allwch gysylltu'r ffynonellau â'i gilydd.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch ymchwil.**

Edrychwch ar gofrestr bedyddiadau Wrecsam ar gyfer 1837. Cafodd y plant hyn eu bedyddio ychydig cyn i gofrestru sifil ddod yn orfodol ym mis Gorffennaf 1837. Ar 17 Chwefror, bedyddiwyd Hannah a Sarah Rowland ar yr un pryd. Merched Edward, plastrwr, a Jane Rowland oedd y ddwy. Roedden nhw'n byw yn Stryd Lampit yn Wrecsam. Pam y bydden nhw wedi cael eu bedyddio gyda'i gilydd tybed? Allwch chi ddarganfod ymhle mae Lampit Street yn Wrecsam? Ydy'r stryd honno yn dal i fod yno yn Wrecsam heddiw? Oherwydd nad oedd y genedigaethau wedi'u cofnodi, nid ydym yn gwybod a oedden nhw'n efeilliaid neu beidio. Yng nghyfrifiad 1851 yn Wrecsam, 14 mlynedd yn ddiweddarach, mae Edward a Jane yn dal i fyw yn Lampit Street ac mae Hannah yn cael ei rhestru fel merch 16 oed sy'n gweithio fel morwyn. Er bod chwaer a brawd iau yn byw yno hefyd, does dim sôn am Sarah. Byddai angen i ni edrych drwy Gofrestr Claddedigaethau Wrecsam i weld a oedd Sarah wedi marw neu a oedd hi wedi symud i ffwrdd.

## Casgliad ar gyfer Tasg 3

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

***Da iawn chi. Rydych wedi gorffen eich tasgau ac rydych wedi casglu gwybodaeth drwy ddefnyddio cofrestrau plwyf.***

## Dyma'ch cyfle chi i gael gwybod rhagor.

Gallwch ymweld â'ch swyddfa cofnodion neu'ch archifdy lleol i weld enghreifftiau o gofrestrau plwyf ar gyfer eich ardal chi. Pa fath o wybodaeth maen nhw'n ei rhoi i chi? A oes unrhyw fath arall o gofrestrau plwyf, er enghraifft priodasau yn yr archif, nad ydym wedi edrych arnyn nhw yn y tasgau? Beth mae'r cofrestrau hyn yn ei ddweud wrthych? Allwch chi ddod o hyd i ragor o gofrestrau ar wefan Casgliad y Werin Cymru?

## Pa gwestiynau newydd fyddech chi'n hoffi cael atebion iddyn nhw?

**Gallwch wneud rhagor o ymchwil ar lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn** www.archiveswales.org.uk/

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn** http://www.culture24.org.uk/places+to+go/wales **(Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn** www.llgc.org.uk/cy/

**Casgliad y Werin Cymru yn** www.casgliadywerincymru.co.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn** www.cbhc.gov.uk

**Coflein yn** www.coflein.gov.uk

# Gweithgareddau Ychwanegol – Gwybodaeth Hanesyddol

**Gan ddefnyddio cofrestrau plwyf eich archifdy lleol, trafodwch pa fath o wybodaeth hanesyddol y gallwn ddod o hyd iddi drwy edrych ar y cofrestrau plwyf.**

**GWEITHGAREDDAU DYSGU**

## *Trafodaeth*

Edrychwch ar gofrestrau plwyf o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Pa fath o wybodaeth mae hyn yn ei rhoi i ni? Sut mae hyn yn wahanol i'r ardaloedd eraill? A oes unrhyw fath arall o gofrestrau plwyf yn eich archifdy lleol? Beth mae'r rhain yn ei ddweud wrthym?

## *Edrych ar gofrestrau plwyf ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – enwau plant*


Ar ôl astudio'r cofrestrau plwyf, bydd y disgyblion, naill ai mewn grwpiau neu fel unigolion, yn edrych ar sut mae enwau plant wedi newid ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth oedd yr enwau mwyaf poblogaidd ar blant ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Beth yw'r enwau mwyaf poblogaidd heddiw? Beth am enwau rhieni a pherthnasau? Dangoswch y wybodaeth ar ffurf siart a chymharu canlyniadau'r grwpiau. A oes unrhyw dueddiadau? Beth o bosibl sy'n dylanwadu ar y tueddiadau hyn?

**Gallai'r siart gwybodaeth gynnwys y wybodaeth ganlynol:**

- **Arolwg o enwau'r plant yn y dosbarth, enwau eu rhieni, eu brodyr a'u chwiorydd a'u perthnasau.**
- **A oes unrhyw rai o'r enwau hyn sy'n fersiynau modern ar enwau hŷn?**
- **Ai enwau Cymraeg yw'r rhai mwyaf cyffredin yn eich ardal chi – sut mae hyn wedi newid ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?**

## *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Pa wybodaeth arall y gallai ymchwilwyr fod eisiau ei chael am y bedyddiadau a'r claddedigaethau sydd heb eu cynnwys ar y cofrestrau.
- Edrychwch ar gofrestr bedyddiadau a chladdedigaethau gyfoes. Ydy'r rhain yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd heb ei chofnodi yng nghofrestrau diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?



# Gweithgareddau Ychwanegol – Bywyd Bob Dydd

**Gan ddefnyddio cofrestrau plwyf o'ch archifdy lleol, cymharwch sut roedd bywyd bob dydd a swyddi yn eich ardal leol yn wahanol i'r rhai mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar gofrestrau plwyf o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Allwch chi weld unrhyw gysylltiadau rhwng y ffordd yr oedd pobl yn byw a'u swyddi a'r gwahanol ardaloedd? Beth yw'r prif swyddi sydd wedi'u rhestru ar gyfer eich ardal leol?

## *Edrych ar gofrestrau plwyf ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – creu coeden deulu*


Ar ôl astudio'r cofnodion plwyf o'r archif lleol, bydd y disgyblion yn llunio eu coeden deulu ar sail y wybodaeth sydd ganddyn nhw am eu teulu a'u cyndeidiau. Beth oedd swyddi'r cyndeidiau? Efallai y byddan nhw'n dymuno dod â ffotograffau o gartref i ddarlunio hyn. Dylai'r plant benderfynu pa wybodaeth maen nhw'n dymuno'i chynnwys yn eu coeden deulu a sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth.

**Dyma rai o'r pethau y gallech eu trafod:**

- **Y wybodaeth maen nhw'n dymuno ei chynnwys a pham maen nhw'n meddwl bod hyn yn bwysig.**
- **Pam maen nhw wedi dewis y dull maen nhw'n ei ddefnyddio i gyflwyno'r wybodaeth?**
- **A oes unrhyw beth arall y bydden nhw wedi hoffi'i gynnwys yn eu coeden deulu?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Os edrychwch ar gofrestr Blaenafon ym 1891 (yng Nghasgliad 1) efallai y byddwch yn sylwi ar ambell beth rhyfedd neu bethau gwahanol ar y tudalennau hyn sydd ddim i'w gweld yn y cofrestrau bedyddiadau eraill. Beth rydych chi'n ei weld sy'n wahanol? (Gallwch wrando ar y ffilm eto i ddarganfod pam mae nodiadau a dyddiadau ar y gofrestr hon nad ydynt mewn trefn gronolegol).



# Gweithgareddau Ychwanegol – Defnyddio Gwahanol Ffynonellau

**Gan ddefnyddio cofnodion plwyf ar y cyd â ffynonellau eraill o'ch archifdy lleol, ymchwiliwyd i fywyd yn eich ardal leol chi yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar y cofrestrau plwyf a ffynonellau eraill, gan gynnwys, er enghraifft, ffurflenni cyfrifiad, a mapiau o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth arall y gallan nhw ei ddweud wrthym am fywyd bob dydd yn ein hardal leol a'r unigolion a oedd yn byw yno?

### *Edrych ar gofrestrau plwyf o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – cyfuno adnoddau archifol*

Gan ddefnyddio'r cofrestrau plwyf o'r archifdy lleol ar y cyd â ffurflenni lleol y cyfrifiad, allwch chi ddod o hyd i deuluoedd neu unigolion sy'n ymddangos mewn mwy nag un ffynhonnell? Ydyn nhw'n ymddangos mewn ffynonellau eraill, er enghraifft allwch chi ddod o hyd i ffotograffau o unrhyw rai ohonyn nhw? Os ydyn nhw'n blant, ydyn nhw'n cael eu crybwyll mewn unrhyw un o lyfrau log yr ysgol? Adeiladwch broffil o'r unigolyn neu'r teulu ar sail y wybodaeth y gallwch ddod o hyd iddi o'r gwahanol ffynonellau. Cymharwch broffil yr unigolyn â'r proffiliau y mae aelodau eraill y dosbarth wedi'u llunio. Sut maen nhw'n wahanol? Pam?

**Gallai eu proffil gynnwys y wybodaeth ganlynol:**

- **Enw'r unigolion/teuluoedd.**
- **Y prif ffynonellau lle maen nhw ar gael.**
- **A oes unrhyw fylchau nad oes modd eu hesbonio?**
- **Ydy eu henw neu eu tŷ yn ymddangos mewn unrhyw un o'r cyfeiriaduron masnach?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar dudalen cyfrifiad 1891 ar gyfer Princes Street, Blaenafon (yng Nghasgliad 1). Allwch chi adnabod unrhyw rai o'r bobl ar dudalen y cyfrifiad a oedd wedi cael eu bedyddio? Faint oedd ei hoed hi pan gafodd hi ei bedyddio? Ar beth arall rydych chi'n sylwi wrth gymharu'r ddau gofnod hyn o'r un flwyddyn? Allwch chi esbonio hyn?
- Edrychwch ar fapiau Arolwg Ordnans ar gyfer Saundersfoot (yng Nghasgliad 1a). Allwch chi ddod o hyd i Eglwys Sant Issell? Nid yw Castell Hean, lle'r oedd Charles Vickerman yn byw, yn bell o'r eglwys. Os edrychwch chi ar fapiau Arolwg Ordnans Saundersfoot, dylech allu dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r lleoedd sy'n cael eu crybwyll yn y gofrestr claddu.







## Mae cofrestrau plwyf yn rhoi gwybodaeth am bobl sy'n cael eu geni, sy'n priodi ac sy'n cael eu claddu mewn ardal.

**Isod, mae trawsgrifiad o'r ffilm sy'n sôn am ddefnyddio cofrestrau plwyf gan ddefnyddio un ardal yn enghraifft.**

Pan fyddwn yn cael ein geni, byddwn ni i gyd yn cael tystysgrif geni. Mae hon yn profi pa mor hen ydym ni, pwy ydym ni a phwy yw ein rhieni. Mae tystysgrifau geni'n ddefnyddiol wrth wneud cais am swydd, pasbort a thrwydded gyrru. Cyn 1837, nid oedd cofnodion swyddogol ar gael o enedigaethau na marwolaethau.

**Beth yw cofrestr plwyf?**
I lawer o bobl gyffredin, cyn hynny, yr unig gofnod a oedd yn profi eu bod wedi bodoli oedd os oeddent wedi'u bedyddio yn yr eglwys, neu os oedden nhw'n priodi neu'n cael eu claddu yno. Byddai'r eglwys yn cadw'r cofnodion hyn mewn cofrestrau neu lyfrau.

Yma, mae gennym ddwy dudalen o gofrestr bedyddio eglwys, y tro hwn o eglwys San Pedr, Blaenafon. Mae'r cofrestrau plwyf cynharaf yn tueddu i ddyddio o 1538, ond mae dod o hyd i gofrestrau sy'n mynd yn ôl i'r flwyddyn hon yn anghyffredin. Er enghraifft, yng Ngwent, mae ein cofrestr gynharaf yn dyddio yn ôl i 1565. Ar gyfer llawer o blwyfi, nid oes gennym gofrestrau tan ar ôl cyfnod Rhyfel Cartref sef ganol yr 1600au. Mae llawer o'r cofrestrau wedi mynd ar goll neu wedi'u difetha.




Dolen i'r ddelwedd

Cyn 1754, roedd bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau'n aml yn cael eu cofnodi yn yr un gyfrol. O 1754 ymlaen, mae priodasau'n cael eu cofnodi ar wahân. O 1813 ymlaen, mae bedyddiadau a chladdedigaethau'n cael eu cofnodi mewn cofrestrau ar wahân. O 1813 ymlaen, dyma'r wybodaeth safonol sy'n cael ei chynnwys mewn cofrestr bedyddio:

**Dyddiad y Bedydd:** Nid y dyddiad geni, er bod y bedydd yn aml yn cael ei gynnal o fewn ychydig wythnosau ar ôl y geni.
**Enw Bedydd y Plentyn**: (erbyn hyn, byddwn yn defnyddio'r term 'enw cyntaf' am hyn, gan ein bod yn byw mewn cymdeithas aml-ffydd).
**Enwau Bedydd a Chyfenwau'r Rhieni:** y ddau riant fel rheol, ond pe bai'r fam yn ddibriod, dim ond enw'r fam.
**Man preswylio**: gall hwn fod yn gyfeiriad penodol neu'n ardal yn y plwyf lle'r oedd eich rhieni'n byw;
**Ansawdd/Masnach/Proffesiwn**: fel rheol beth oedd y tad yn ei wneud i ennill bywoliaeth, ond weithiau, os oedd y fam yn ddibriod, byddai galwedigaeth y fam yn cael ei chofnodi.

Yn ogystal â'r hyn sydd i fod i gael ei gofnodi'n swyddogol, yr hyn sy'n gwneud y gofrestr hon o ardal Blaenafon yn ddiddorol yw'r nodiadau ar yr ymylon:

**Bedyddio Oedolion**: Cafodd John Davies, Catherine Williams a Kezia Llewellyn i gyd eu bedyddio'n oedolion. Nid yw hyn yn beth anghyffredin. Weithiau, roedd pobl yn osgoi mynd i'r eglwys, naill ai oherwydd nad oedden nhw'n credu yn Nuw, oherwydd nad oedden nhw wedi llwyddo i drefnu i fedyddio eu plant neu oherwydd bod yn rhaid iddyn nhw dalu am fedydd. Pan fyddai'r plentyn yn tyfu ac eisiau priodi, mae'n bosibl y byddai'r eglwys yn mynnu eu bod yn dangos prawf eu bod wedi'u bedyddio. Heb brawf digonol, byddai'n rhaid i'r unigolyn gael ei fedyddio'n oedolyn. (Mae'n werth ystyried pwy a oedd yn cael ei ystyried yn oedolyn. Yn ôl cyfrifiad 1891, a gynhaliwyd ar noson 5 Ebrill, cofnodwyd bod Catherine Williams yn 15).

**M Ch**: mae hyn yn cyfeirio at Mission Church. Ym Mlaenafon, yn ogystal â phrif eglwys y plwyf, sef San Pedr, roedd eglwys sefydledig arall a oedd yn perthyn i Eglwys Loegr y gallai pobl ei mynychu, sef St James. Mae hwn yn dangos bod 5 bedydd wedi'u cynnal yma, a chafodd y cofnod hwn ei gopïo i brif gofrestr y plwyf wedyn. Mae'n bosibl gweld hefyd nad yw proffesiwn y tad wedi'i gofnodi ar gyfer 3 o'r 5 plentyn hyn. Mae'n siŵr bod gan bob un o'r 3 tad swydd, ond bod pobl, wrth gopïo'r bedyddiadau i'r gofrestr, ychydig wythnosau ar ôl y digwyddiad, yn methu â chofio beth oedd y swyddi hynny.

**Pa wybodaeth allwn ni ddod o hyd iddi yn y cofrestrau plwyf?**
Dyma rai o'r ffynonellau mwyaf poblogaidd sy'n cael eu defnyddio mewn archifdai oherwydd eu bod nhw'n cynnig cymaint o wybodaeth i bobl sy'n chwilio am hanes eu teulu. Ym 1836, pasiwyd deddfau a oedd yn golygu ei bod yn rhaid cofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau yn ôl y gyfraith o 1 Gorffennaf 1837 ymlaen. Felly, cofrestrau plwyf yw'r brif ffurf ar gofrestru cyn y dyddiad hwn. Mae'n bosibl gwirio cofrestrau bedydd â'r wybodaeth sydd mewn ffynonellau eraill, er enghraifft y cyfrifiad. I bobl sy'n ymchwilio i hanes eu teulu neu i hanes lleol er mwyn dod o hyd i berthnasau, mae'n bosibl edrych ar gofrestrau bedyddio am ddim ond mae'n rhaid talu am weld tystysgrifau geni. Os edrychwn eto ar yr enghraifft hon, mae'n ddiddorol gweld beth oedd swyddi'r dynion bryd hynny. Wrth gofrestru bedydd neu enedigaeth heddiw, bydd y disgrifiad o swyddi'r rhieni'n aml yn eithaf niwlog, er enghraifft 'Cyfarwyddwr' neu 'Reolwr'. Roedd proffesiynau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn tueddu i fod yn fwy penodol. Yma, rydym yn gweld eithaf tipyn o swyddi diwydiannol:

**Mwynwr**: yn benodol rhywun a oedd yn mwyngloddio mwyn haearn, er bod y gair yn cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredinol yn ddiweddarach.
**Glöwr**: rhywun a oedd yn cloddio am lo.
**Pwyswr**: rhywun a oedd yn pwyso nwyddau a oedd yn cael eu dadlwytho yn y dociau.
**Peliwr**: rhywun a oedd yn mesur peli o glai i grochenydd eu defnyddio.
**Saer maen**: rhywun a oedd yn torri cerrig.

Hefyd, mae gennym gapten llong, llafurwr a dyn tân. Mae gennym hefyd ddyn 'cwrs dŵr'. Rhywun a oedd yn helpu i gyfeirio nentydd i'w defnyddio mewn pwll glo lleol fyddai hwn, mae'n debyg.
Mae'r proffesiynau hyn yn dangos mai diwydiant trwm yn bennaf oedd ym Mlaenafon ar y pryd. Erbyn hyn, dim ond y dyn tân a'r llafurwr y byddech chi'n eu gweld ym Mlaenafon.

Rhywun arall a fyddai o bosibl yn defnyddio cofrestrau plwyf fyddai rhywun sy'n astudio enwau. Rydym eisoes wedi gweld yr enw Beiblaidd Kezia, a oedd yn fwy poblogaidd yn oes Fictoria, nag y mae heddiw.

# Ar Garreg Eich Drws – Cofrestrau Plwyf / Nodiadau i Athrawon

Mae Kezia arall i'w gweld yn gynharach yn yr un gofrestr. Mae llawer o enwau cyntaf brenhinol i'w gweld hefyd. Ar y tudalennau hyn, rydym yn gweld Albert, y Tywysog Albert, sef enw gŵr y Frenhines Fictoria, ac Alice, enw un o ferched y Frenhines.

Nid oedd pawb yn cael ei fedyddio. Hyd yn oed wedyn, ni fyddai pawb a oedd yn cael ei fedyddio ym Mlaenafon o reidrwydd yn ymddangos yng nghofrestr y plwyf. Roedd anghydffurfwyr, y Methodistiaid, a'r Bedyddwyr ac ati, yn cadw eu cofrestrau eu hunain hefyd.

# Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

## Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy lleol isod:

Archifau Gwent enquiries@gwentarchives.gov.uk Ffôn: 01495 353363

Archifau Morgannwg glamro@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2087 2200

Archifau Prifysgol Abertawe archives@swansea.ac.uk Ffôn: 01792 295021

Archifau Prifysgol Aberystwyth archives@aber.ac.uk Ffôn: 01970 628593

Archifau Prifysgol Bangor archives@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382966

Archifau Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant rodericbownlibrary@tsd.ac.uk Ffôn: 01248 38296

Archifau Ynys Môn archifdy@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 751930

Archifdy Ceredigion archives@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01970 633697/633698

Archifdy Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn: 01639 620139

Archifdy Gwynedd, Meirionnydd archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01341 424 682

Archifdy Gwynedd, Caernarfon archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679095

Archifdy Sir Ddinbych archif@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708250

Archifdy Sir Benfro record.office@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775456

Archifdy Sir y Fflint archives@siryfflint.gov.uk Ffôn: 01244 532364

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam archives@wrecsam.gov.uk Ffôn 01978 297480

Gwasanaeth Archifau Conwy archifau.archives@conwy.gov.uk Ffôn 01492 577550

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn 01792 636589

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin archives@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 228232

Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau keelanp@caerdydd.ac.uk Ffôn: 029 2087 5678

Swyddfa Archifau Sir Powys archives@powys.gov.uk Ffôn: 01597 826088

# Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

**Gallwch ddod o hyd i ragor o adnoddau ar-lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn www.archiveswales.org.uk/**

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn www.culture24.org.uk/places+to+go/wales (Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru: www.llgc.org.uk/cy/**

**Casgliad y Werin Cymru: www.casgliadywerincymru.co.uk**

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: www.cbhc.gov.uk**

**Coflein: www.coflein.gov.uk**